

Y Cyngor Optegol Cyffredinol

---

# Adolygu cofnodion DPP: Arweiniad i gofrestryddi on

# Cynnwys

## Cyflwyniad 2

Pam mae angen i'r GOC gynnal adolygiad o gofnodion DPP y cofrestryddion?	3
Pryd fydd yr adolygiad yn cael ei gynnal?	3
Sut mae cofrestryddion yn cael eu dewis i'w hadolygu?	3
A oes modd adolygu cofnodion unrhyw gofrestrai?	3
Sut fydda i'n gwybod a ydw i wedi cael fy newis i gael fy adolygu?	3
Alla i optio allan o adolygiad?	3
Pwy fydd yn adolygu fy nghofnodion DPP?	3
Beth sydd angen i mi ei ddarparu er mwyn cynnal adolygiad?	4
A all adolygydd dynnu pwyntiau o'm cofnod?	4
Ble ydw i'n mynd os oes gen i gwestiynau am adolygu?	4

## Adolygu cofnodion DPP 5

<b>1. Y broses adolygu</b>	<b>6</b>
1.1 Camau cyntaf a'r hyn rydym yn edrych arno	6
1.2 Am beth mae adolygwyr yn chwilio	6
1.3 Rhoi rhagor o wybodaeth	6
1.4 Canlyniadau adolygu cofnodion DPP	6
1.4.1 Canlyniad yr adolygiad - wedi pasio	7
1.4.2 Canlyniad yr adolygiad - angen gwella	7
1.4.3 Canlyniad yr adolygiad - pryderon difrifol	7
1.5 Adolygiad wedi'i dargedu	7
1.6 Apelio yn erbyn canlyniad yr adolygiad	7
<b>2. Beth sy'n digwydd i'ch data?</b>	<b>8</b>
2.1 Prosesu data yn ystod adolygiad y cofrestrai	8
2.2 Cadw data ar ôl adolygu canlyniadau	8
2.3 Defnyddio gwybodaeth a data o adolygiad DPP y cofrestryddion	8

# Cyflwyniad

## Gwybodaeth am y canllaw hwn

Mae datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn ofyniad statudol ar gyfer pob optometrydd sydd wedi cymhwyso'n llawn ac optegwyr sy'n cyflenwi i sicrhau eu bod yn diweddarau eu sgiliau ac yn datblygu rhai newydd er mwyn ymarfer yn ddiogel ac amddiffyn eu cleifion.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio proses adolygu cofnodion DPP y cofrestrai a'i nod yw eich helpu i ddeall beth sydd ynghlwm.

## Pam mae angen i'r GOC gynnal adolygiad o gofnodion DPP cofrestryddion?

Mae angen i ni gynnal adolygiad i sicrhau bod y rhai sy'n cofrestru yn ymgymryd â DPP sy'n cyd-fynd â'u cwmpas ymarfer a'u hanghenion datblygu proffesiynol, a bod y rhai sy'n cofrestru yn cadw cofnodion o ansawdd da o'r DPP maen nhw'n ei gwblhau. Bwriedir i'r adolygiad fod yn broses gadarnhaol lle, os canfyddir problemau, y cefnogir cofrestrwyr i weithio arnyn nhw.

Mae adolygiad y Cofrestrai wedi cael ei gyflwyno o gylch DPP 2022-24

i ddarparu dull sicrhau ansawdd nad oedd ei angen o dan y cynllun Addysg a Hyfforddiant Parhaus blaenorol, a oedd yn gofyn am gymeradwyo digwyddiadau dysgu ymlaen llaw ac i ddarparwyr ddyrannu pwyntiau i gofrestryddion. Gan fod y cynllun CPD yn llawer mwy hyblyg nag yr oedd y cynllun CET a bod angen i gofrestryddion bellach gadw eu cofnodion eu hunain o DPP a gwblhawyd, mae adolygu cofnodion cofrestryddion yn ffordd gymesur o sicrhau ansawdd darpariaeth DPP heb y baich gweinyddol trwm o gymeradwyaeth ymlaen llaw.

rhagor o wybodaeth neu eglurhad arnom er mwyn cwblhau'r adolygiad.

### Pryd fydd yr adolygiad yn cael ei gynnal?

Bydd adolygiad o gofnodion DPP y cofrestrai yn cael ei gynnal drwy gydol y cylch DPP tair blynedd.

### Sut mae cofrestryddion yn cael eu dewis i'w hadolygu?

Bydd cofnodion CPD hyd at ddeg y cant o gofrestryddion yn cael eu hadolygu bob cylch DPP. Bydd Cofrestryddion yn cael neges mewn e-bost pan gânt eu dewis i'w hadolygu.

### A oes modd adolygu cofnodion unrhyw gofrestrai?

Oes, gellir adolygu cofnodion unrhyw gofrestrai cwbl gymwys, gan gynnwys y rhai sy'n destun achos addasrwydd i ymarfer parhaus. Ni fydd myfyrwyr yn cael eu hadolygu, ac eithrio myfyrwyr optometryddion sydd hefyd yn optegwyr cyflenwi cofrestredig, y gall eu cofnodion yn ymwneud â chofrestru fel optegydd cyflenwi gael eu hadolygu.

### Sut fydda i'n gwybod a ydw i wedi cael fy newis i gael fy adolygu?

Byddwn yn anfon e-bost atoch i gadarnhau eich bod wedi cael eich dewis i gael eich adolygu. Byddwn yn cysylltu â chi eto ar ôl i'r adolygiad ddod i ben ac yn cynnwys unrhyw gyngor neu sylwadau gan yr adolygydd. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi cyn i'r adolygiad ddod i ben os bydd angen

#### Alla i optio allan o adolygiad?

Na allwch. Mae gallu adolygu cofnodion DPP y cofrestrai yn rhan hanfodol o'n gallu i sicrhau ansawdd yn briodol. Mae angen i ni sicrhau bod ein cofrestryddion yn cadw cofnodion DPP priodol, a bod ganddynt fynediad at ddulliau dysgu a fydd yn eu helpu i ymarfer yn ddiogel.

#### Pwy fydd yn adolygu fy nghofnodion DPP?

Cynhelir yr adolygiad gan ein hadolygwyr DPP cofrestredig. Mae'r adolygwyr yn optometryddion ac optegwyr cyflenwi a benodir ac a hyfforddwyd gan y GOC.

Fel rhan o'r broses adolygu, efallai y byddwch hefyd yn cysylltu ag aelodau o dîm DPP GOC, sef ein staff mewnol arbenigol. Mae croeso i chi gysylltu â nhw gyda chwestiynau ar unrhyw gam o'r adolygiad.

### Beth sydd angen i mi ei ddarparu er mwyn cynnal adolygiad?

Fel arfer, ni fydd angen i chi ddarparu unrhyw beth – mae'r adolygiad yn cael ei gyflawni drwy edrych ar eich cofnodion MyCPD. Felly, mae'n bwysig iawn eich bod yn gwneud yn siŵr bod eich cofnodion o weithgareddau DPP mor glir a chyflawn ag y gallant fod. Mae canllawiau ar ba gofnodion y mae angen eu cadw ar gael yn ein dogfen [Datblygiad Proffesiynol Parhaus \(DPP\): Canllaw i gofrestryddion](#), sydd ar gael ar wefan GOC.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yr adolygydd angen mwy o wybodaeth gennych chi. Os felly, byddant yn rhoi gwybod i chi yn ystod yr adolygiad. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd os na chofnodwyd yr wybodaeth ar MyCPD, os nad yw'r wybodaeth yn glir, neu os oes anghysondeb yn eich cofnodion. Mae sawl rheswm pam y gall adolygydd ofyn am ragor o wybodaeth gennych chi. Nid yw o reidrwydd yn arwydd bod diffygion yn eich gallu i gadw cofnodion.

### A all adolygydd dynnu pwyntiau o'm cofnod?

Na, ni all adolygwyr dynnu pwyntiau na dileu cofnodion o'ch cyfrif MyCPD. Fodd bynnag, efallai y byddant yn gwneud argymhellion i chi newid eich cofnodion DPP, neu'n gofyn i chi ystyried a yw'r DPP yr ydych wedi ymgymryd ag ef yn briodol ar gyfer eich cwmpas ymarfer neu ddatblygiad proffesiynol.

### Ble ydw i'n mynd os oes gen i gwestiynau am adolygu?

Os oes gennych chi gwestiynau nad ydynt yn cael eu hateb gan y canllaw hwn, anfonwch e-bost at ein tîm DPP yn [cpd@optical.org](mailto:cpd@optical.org).

# Adolyg u cofnodi on DPP

# 1. Y broses adolygu

Bydd hyd at ddeg y cant o'r rhai sydd wedi cofrestru yn cael eu dewis i'w hadolygu drwy gydol y cylch DPP. Nid yw cael eich dewis i gael eich adolygu yn ddim i boeni amdano os ydych chi wedi bod yn cadw cofnodion o ansawdd da o'r DPP a'r dulliau dysgu rydych chi wedi'u cyflawni.

**1.1 Camau cyntaf a'r hyn rydym yn edrych arno**  
Os cewch eich dewis ar gyfer adolygu, byddwch yn cael gwybod drwy e-bost.

Mae'r broses o ddewis yn digwydd drwy gydol y cylch DPP tair blynedd. Pan fyddwch yn cael yr hysbysiad hwn, ni fydd angen i chi weithredu ar unwaith.

Efallai na fyddwn yn edrych ar yr holl gofnodion ar eich cyfrif MyCPD

fel rhan o'r adolygiad, yn enwedig os cewch eich dewis i gael eich adolygu ym mlwyddyn olaf cylch DPP pan fyddwch efallai wedi cwblhau a llwytho llawer o weithgareddau DPP i fyny. Bydd yr adolygydd yn cael sampl o'ch cofnodion i'w hadolygu. Ni fydd yr adolygydd yn gallu newid pa gofnodion y gofynnir iddo edrych arnynt ac ni ddylech ofyn iddo wneud hynny.

**1.2 Am beth mae adolygwyr yn chwilio**  
Wrth adolygu eich cofnodion, mae'r adolygwyr yn awyddus i sicrhau eich bod yn cadw cofnodion o ansawdd da o'r DPP rydych chi wedi'i gwblhau, bod unrhyw fyfyrddodau rydych chi wedi'u cofnodi yn ystrolon, a bod yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu'n briodol i'ch anghenion.

**1.3 Rhoi rhagor o wybodaeth**  
Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o gofrestryddion ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn i'r adolygiad o'u cofnodion fynd rhagddo. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, ac yn dibynnu ar ba mor bell i mewn i'r cylch rydych chi'n cael eich dewis i'w adolygu, efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol – er enghraifft, os yw'r data ar goll neu os yw'r wybodaeth rydych chi wedi'i chofnodi ar MyCPD yn aneglur.

Os mai dyma'r achos i chi, bydd eich adolygydd yn cysylltu â chi ac yn egluro pam mae angen yr wybodaeth y mae'n gofyn amdani. Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth cyn gynted â phosibl, ac o fewn 14 diwrnod calendr, fel y gellir cwblhau'r adolygiad, a rhoi canlyniad pendant. Os nad ydych chi'n gallu darparu rhagor o wybodaeth neu os ydych chi'n penderfynu peidio â rhoi rhagor o wybodaeth, efallai y bydd yr adolygydd yn rhoi canlyniad "angen gwella" neu "bryderon difrifol".

**1.4 Canlyniadau adolygu cofnodion DPP**  
Byddwch yn cael e-bost gan y tîm DPP ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau. Fel arfer, bydd hyn o fewn chwe wythnos i chi gael yr e-bost hysbysu cychwynnol a bydd yn cynnwys adroddiad byr a ysgrifennwyd gan yr adolygydd gyda'i ganfyddiadau. Amlinellir canlyniadau posibl yr adolygiad isod a chânt eu crynhoi yn Nhabl 1.

Bydd yn glir o adroddiad yr adolygydd pa ganlyniad sy'n berthnasol i chi, ac a oes unrhyw gamau i chi eu cymryd ar unwaith.

Canlyniad yr archwiliad	Disgrifiad
Wedi pasio	Mae'r cofnodion o safon dda ac yn ddigon manwl i ddangos yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu. Gall yr adolygydd barhau i roi awgrymiadau ar gyfer gwella eich cofnodion. Does dim angen i chi gymryd mwy o gamau.
Angen gwella	Mae angen gwella wrth gadw cofnodion a/neu efallai na fydd eich dulliau dysgu'n briodol nac ar y trywydd iawn. Bydd eich adolygydd yn darparu gwybodaeth am yr hyn y mae angen i chi ei wneud i gyrraedd safon dderbyniol, gan gyfeirio at y <a href="#">Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion</a> ac Optegwyr Cyflenwi. <b>Efallai y bydd y canlyniad hwn yn gofyn am adolygiad pellach wedi'i dargedu o'ch cofnodion yn ystod y 12 mis nesaf.</b>
Pryderon difrifol	Mae problemau difrifol o ran cadw cofnodion a/neu mae tystiolaeth nad yw eich dulliau dysgu'n cyd-fynd â'ch anghenion neu â'r Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi. <b>Gan ddibynnu ar faint y mater(ion) a nodwyd, efallai y bydd angen cymryd camau pellach. Gall hyn gynnwys atgyfeirio at y tîm Addasrwydd i Ymarfer.</b>





#### 1.4.1 Canlyniad yr adolygiad - wedi pasio

Os byddwch yn cael y canlyniad hwn gan yr adolygydd, mae eich cofnodion DPP

o safon dda neu dderbyniol, ac maent yn ddigon manwl i ddangos tystiolaeth o'ch dysgu. Nid oes angen cymryd camau pellach, ac mae'r adolygiad wedi'i basio.

Efallai y bydd yr adolygydd yn rhoi rhai awgrymiadau yn ei adroddiad ynghylch sut y gallech wella eich cofnodion ymhellach.

Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'r cofrestryddion yn cael y canlyniad hwn os ydynt yn cadw cofnodion gonest a diwyd.

#### 1.4.2 Canlyniad yr adolygiad - angen gwella

Os byddwch yn cael y canlyniad hwn gan yr adolygydd, bydd angen

i chi gymryd camau yn unol ag argymhellion yr adolygydd.

Byddwch yn cael camau gweithredu ac amserlenni penodol lle rydym yn disgwyl i chi eu cwblhau.

Os na allwch chi gwblhau'r camau gweithredu o fewn yr amserlenni a nodwyd am unrhyw reswm, rhaid i chi gysylltu â'r tîm DPP ([cpd@optical.org](mailto:cpd@optical.org)) cyn gynted â phosibl i roi cyngor

ar hyn ac esbonio pam. Bydd methu ymateb neu gymryd y camau y gofynnwyd amdanynt heb esboniad yn arwain at newid i ganlyniad 'pryderon difrifol'.

Un enghraifft a fyddai'n arwain at y canlyniad hwn fyddai lle mae tystiolaeth wael, anghyflawn neu amhriodol wedi'i darparu.

Gall cofrestryddion sy'n cael canlyniad 'angen gwella' fod yn destun adolygiad wedi'i dargedu (gweler 1.5 Adolygiad wedi'i dargedu, isod). Os llwyddir i basio'r adolygiad bryd hynny,

ni chymerir unrhyw gamau pellach wedi'u targedu. Yn dilyn yr adolygiad wedi'i dargedu, os ydych chi'n cael canlyniad 'angen gwella' neu 'bryderon difrifol' arall, yn dibynnu ar y graddau

yn dibynnu ar raddau'r mater(ion) a nodwyd, efallai y bydd angen cymryd camau pellach a gallai hyn gynnwys cyfeirio at y tîm Swyddfa Addasrwydd i Ymarfer (FTP).

#### 1.4.3 Canlyniad yr adolygiad - pryderon difrifol

Os byddwch yn cael y canlyniad hwn gan yr adolygydd, bydd y materion

sy'n ymwneud â'ch gweithgareddau dysgu DPP a/neu gadw cofnodion yn cael eu rhestru gyda gwybodaeth am sut mae'r materion hyn yn profi eich bod yn torri'r Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi a/neu

dim ond pan fydd pryderon wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac nad oes modd eu datrys yn hawdd y bydd y canlyniad hwn yn cael ei roi, er y byddwch yn dal i gael cyfle i wneud gwelliannau i'ch trefniadau cadw cofnodion a/neu ailasesu'r gweithgareddau DPP rydych yn ymgymryd â nhw.

Bydd y tîm DPP yn eich cefnogi i wneud hyn.

Enghraifft o bryder difrifol fyddai nodi'n anonest DPP nad ydych wedi'i gwblhau ar eich cofnod MyCPD. Byddai achos o'r fath yn gyfystyr â chamymddwyn a byddai'n torri'r Safonau Ymarfer

ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi.

Bydd Cyfarwyddwr Strategaeth Rheoleiddio'r GOC yn adolygu pob achos lle mae'r rhai sydd wedi cofrestru yn cael y canlyniad hwn. Gan ystyried cyngor yr adolygydd, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y camau angenrheidiol nesaf. Gall hyn gynnwys

atgyfeirio at y tîm Addasrwydd i Ymarfer. Os felly, byddwch yn cael hysbysiad ysgrifenedig o'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.

#### 1.5 Adolygiad wedi'i dargedu

Efallai y bydd cofrestryddion sy'n cael canlyniad 'angen gwella' yn ddarostyngedig i adolygiad wedi'i dargedu yn y 12 mis dilynol. Fel rhan o'r adolygiad wedi'i dargedu, bydd yr adolygydd yn edrych ar ddetholiad o gofnodion DPP ac yn ystyried a yw'r cofrestrai wedi gweithredu yn unol â'r argymhellion

a nodwyd yn yr adolygiad blaenorol yn ei gyfanrwydd. Bydd canlyniad terfynol newydd yn nodi pasio, angen gwella, neu bryderon difrifol yn cael eu rhoi yn dilyn adolygiad wedi'i dargedu.

#### 1.6 Apelio yn erbyn canlyniad yr adolygiad

Os ydych chi, ar ôl cael adroddiad eich adolygydd, yn anghytuno â'r

canlyniad a roddwyd i chi, y cam cyntaf fyddai trafod hyn gyda'r tîm DPP. Ni all newid y canlyniad y mae wedi'i roi, ond gall egluro pam eich bod wedi cael y canlyniad hwnnw a rhoi eglurder (os oes angen) ar ei sylwadau.

Os ydych chi'n dal i anghytuno â'r canlyniad ar ôl trafod gyda'r tîm DPP, gallwch ofyn i hyn gael ei uwchgyfeirio i apêl am ganlyniad. Dylech gysylltu â'r tîm DPP yn y lle cyntaf yn [cpd@optical.org](mailto:cpd@optical.org). Bydd Cyfarwyddwr Strategaeth Reoleiddio'r GOC

yn edrych ar eich apêl, yn adolygu'r penderfyniad, ac yn anelu at ddarparu ymateb i chi o fewn 30 diwrnod calendr.

## 2. Beth sy'n digwydd i'ch data?

### 2.1 Prosesu data yn ystod adolygiad y cofrestrai

Gall y GOC a'n hasiantau weld eich cofnodion DPP ac unrhyw wybodaeth bellach a ddarperir gennych os cewch eich dewis ar gyfer adolygiad DPP. Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei llwytho i fyny a'i hychwanegu yn MyCPD, gan gynnwys eich myfyrdodau, wedi'u bwriadu at eich defnydd personol chi. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar yr adolygydd i weithredu ar unrhyw wybodaeth a allai godi pryderon am eich addasrwydd i ymarfer. Byddwn yn prosesu eich data fel y caniateir gan Ddeddf Diogelu Data 2018. Defnyddir y data at ddibenion cynnal yr adolygiad.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio ac yn trin data fel sefydliad, cysylltwch â'n tîm Llywodraethu yn [foi@optical.org](mailto:foi@optical.org).

### 2.2 Cadw data ar ôl adolygu canlyniadau

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd sut byddwn yn delio â'ch data ei bennu gan ganlyniad yr adolygiad.

Os bydd yr adolygiad yn cael ei basio, yna bydd y data adolygu sydd gennym yn ddarostyngedig i bolisi cadw data DPP y GOC ac yn cael ei gadw am ddau gylch cyflawn y tu hwnt i'r cylch presennol.

Os mai 'angen gwella' oedd y canlyniad, bydd y data a chanlyniad yr adolygiad yn cael eu storio yn unol â'r polisi cadw data DPP ac yna'n cael eu hadolygu fel rhan o'ch adolygiad wedi'i dargedu.

Os mai 'pryderon difrifol' oedd y canlyniad, efallai y bydd y GOC yn trosglwyddo eich data a chanlyniad yr adolygiad i'r tîm Addasrwydd i Ymarfer. Yn yr achos hwn, bydd y data'n cael ei gadw yn unol â'r DPP ac, os yw'n berthnasol, y polisiau cadw data Addasrwydd i Ymarfer.

### 2.3 Defnyddio gwybodaeth a data o adolygiad DPP y cofrestryddion

Gall y GOC ddefnyddio gwybodaeth a data o adolygiad DPP y cofrestrai at ddibenion ymchwil, adrodd, ac at ddibenion adolygu ein systemau a gweithdrefnau mewnol. Ni fydd unrhyw ddata a allai adnabod y cofrestrai yn cael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiad.